**PWYLLGOR SAFONAU**

**1 Mai 2024**

Yn bresennol (yn bersonol):
Mr J Daniels a Dr R Plummer.

Yn bresennol (o bell):
Mr P Davies, y Cynghorydd Dr S Hancock MBE, Mrs W Taylor a Mrs V Tomlinson.

(Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00pm – 2.45pm)

**1. Materion Personol**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drist y Cynghorydd Reg Owens, cyn Aelod o'r Pwyllgor, fu farw yn gynharach yn y flwyddyn.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James.

**3. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad personol cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolwr Plantlife, a Chyfarwyddwr Gwelliannau Bioamrywiaeth Plantlife Cyf.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd Dr Hancock, ac a eiliwyd gan Mrs V Tomlinson, **PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023 a'u llofnodi.

**5. Adroddiad Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau**

Roedd y Cadeirydd, Mr Daniels, wedi mynychu'r cyfarfod hwn, a dywedodd pa mor ddefnyddiol oedd hi i ddysgu sut mae Awdurdodau eraill yn ymdrin â materion.

Nododd yr Aelodau yr eitem ar Bwyllgorau Safonau y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Dywedwyd bod yr Awdurdod yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru, a Chastell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod arweiniol ar Lywodraethu'r Cyd-bwyllgor, a barnwyd mai eu Pwyllgor Safonau hwy sy'n gweithredu fel Pwyllgor Safonau y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

Nodwyd hefyd bod yr Awdurdod hwn wedi mabwysiadu'r trothwy cyffredin o £25 o ran cofrestru rhoddion a lletygarwch.

Hefyd dywedodd Mr Daniels ei fod wedi mynychu 2 sesiwn hyfforddiant ar swyddogaeth Pwyllgor Safonau a gwrandawiadau Pwyllgor Safonau. Cynigiodd y dylid trefnu hyfforddiant ar swyddogaeth gwrandawiadau i bob aelod o'r Pwyllgor. Trafodwyd y posibilrwydd o rannu hyfforddiant gyda Phwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro, a chytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn mynd ar drywydd hyn.

**Nodwyd** adroddiad y Fforwm Cadeiryddion a gynhaliwyd ar y 29ain o Ionawr 2024.

**6. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2023/24**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro a gyflwynodd ei adroddiad blynyddol oedd yn cynnwys gwybodaeth am gylch gorchwyl y Pwyllgor, Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, y Protocol Datrys yn Lleol, Caniatáu Gollyngiadau, y Polisi Camau Annerbyniol gan Achwynwyr, Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon, ac adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Dywedwyd y byddai tymor Mrs Tomlinson fel aelod o’r Pwyllgor yn dod i ben cyn hir ac y cynhelir y broses recriwtio yn y dyfodol agos. Awgrymwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ehangu amrywiaeth y Pwyllgor drwy ddefnyddio dulliau eraill o recriwtio megis Facebook, a nodwyd hynny. Ychwanegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Mrs Tomlinson am ei chyfraniadau i'r Pwyllgor.

O ran yr hyfforddiant a gynhaliwyd fis Tachwedd 2023, nodwyd nad oedd aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol wedi'u gwahodd i'r sesiwn hon, a gofynnwyd am iddynt gael gwybod am ddyddiadau hyfforddiant yn y dyfodol. Cytunodd y Swyddog Monitro y byddai sesiynau hyfforddiant ar y cyd yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Cymeradwywyd bod y cyfryw hyfforddiant yn cael ei recordio fel bod y rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn gallu gwylio’r recordiad ar ôl y digwyddiad.

Ar gynnig Dr Plummer, ac a eiliwyd gan Mrs Tomlinson, **PENDERFYNWYD**;

i) nodi'r adroddiad;
ii) cytuno bod yr adroddiad yn sail i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i’w gyflwyno i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.